



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm
Clydach, CF40 2XX
Dydd Mawrth, 17eg Gorffennaf, 2018 am 2.30 pm

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol
(Rhif ffôn. 01443 424110)

Os bydd cyngorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 13 Gorffennaf 2018. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Mehefin yn rhai cywir.

(Tudalennau 5 - 14)

3. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG RHCT

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n nodi gwybodaeth am ddyletswyddau statudol y Cyngor i sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG).

(Tudalennau 15 - 52)

4. GRANT CYNNAL CANOL Y DREF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio, Adfywio a Thai sy'n rhoi adolygiad i'r Cabinet o Grant Cynnal Canol y Dref, sy wedi'i roi ar brawf yn Ardaloedd Manwerthu Aberpennar a Thonypandy.

(Tudalennau 53 - 64)

5. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD CORFFORAETHOL Y CYNGOR

Derbyn adroddiad gan y Prif Weithredwr, sy'n amlinellu'r Adroddiad ar Gyflawniad Corfforaethol y Cyngor sy'n cynnwys cynnydd ar gyfer 2017/18 a chynlluniau ar gyfer 2018/19 mewn perthynas â thair blaenoriaeth strategol y Cyngor.

(Tudalennau 65 - 122)

6. ADRODDIAD CYFLAWNIAD AC ADNODDAU'R CYNGOR (CHWARTER 4)

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-Flaen sy'n rhoi arolwg i Aelodau ar gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2018.

(Tudalennau 123 - 144)

7. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2018/19 tan 2021/22, yn seiliedig ar y tybiaethau modelu presennol cyn pennu'r cynigion manwl ar gyfer strategaeth gyllideb 2019/20 yn ystod misoedd yr hydref.

(Tudalennau 145 - 188)

8. DIWEDDARIAD YNGLŶN AG ADOLYGIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y gwaith sydd wedi ei wneud er mwyn ymateb i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ac yn amlinellu gwaith pellach sydd wedi cael ei gynllunio i'w gyflwyno gan garfan y cynllun Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

(Tudalennau 189 - 198)

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (DRAFFT)

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yn cyflwyno'r drafft cyntaf o Adroddiad y

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol cyn i'r cynnwys gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

(Tudalennau 199 - 238)

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNHALWYR CWM TAF 2017/18

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yn rhoi Adroddiad Blynyddol 2017/18 mewn perthynas â Chynhalwyr i'r Aelodau, cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

(Tudalennau 239 - 282)

11. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

12. DATBLYGIAD LLETY TAI Â CHYMORTH

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i addasu cyn cynllun Llety Gwarchod, Crown Avenue ar gyfer pobl hŷn yn Ynys-wen, Treorci, sy'n eiddo i Trivallis i lety byw â chymorth newydd i bobl ag anabledd dysgu.

(Tudalennau 283 - 290)

13. MATERION BRYG

Trafod unrhyw faterion bryg y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins

Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Uwchadran Adfywio, Cynllunio a Thai
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Pennaeth Materion Adnoddau Dynol